Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ynghylch Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion – Adroddiad ar yr Ystyriaeth ar Ddeiseb

---

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, sy'n cydnabod y manteision a ddaw wrth i'r lluoedd arfog fel cyflogwyr ymgysylltu ag ysgolion, ac sydd hefyd yn cydnabod natur unigryw gyrfa yn y lluoedd arfog.

Rydym yn credu bod y cyfle i gyflogwyr ymgysylltu ag ysgolion yn un gwerthfawr gan ei fod yn helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau wrth ddewis gyrfa, yn ogystal â'u helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith. Pan fydd cyflogwr yn ymgysylltu â phobl ifanc, mae hynny'n eu helpu i sylweddoli pa mor bwysig yw sgiliau cyflogadwyedd. Mae hefyd yn helpu i sicrhau eu bod yn gwybod am y cyfleoedd sy'n bodoli yn y farchnad lafur.

Yr her, felly, yw cynyddu nifer ac amrywiaeth y cyflogwyr sy'n gweithio gydag ysgolion. Yn ddiweddar, rydym wedi dyfarnu contract ar gyfer datblygu prosiect i wella'r cysylltiad rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Bydd y prosiect hwn yn darparu model ar gyfer creu partneriaethau cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr, yn ogystal â hwyluso gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogwyr ac sy'n berthnasol i amrywiaeth eang o feysydd y cwricwlwm. Bydd y prosiect newydd, a ddarperir ar y cyd â Gyrfa Cymru, yn datblygu arferion effeithiol sy'n bodoli eisoes, a'r bwriad yw ei roi ar waith yn ystod yr hydref.

O fewn ffiniau ei gylch gwaith, mae Gyrfa Cymru yn parhau i chwarae rôl allweddol yn yr ymgyrch i greu cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr. Hefyd mae'n parhau i geisio sicrhau cymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer gweithgareddau a fydd yn caniatáu i bobl ifanc gael profiad o fyd gwaith a dod i ddeall y sgiliau a'r agweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Yn y pen draw, yr ysgolion, drwy eu penaethiaid a'u cyrff llywodraethu, sy'n gyfrifol am benderfynu pa sefydliadau ddylai ymweld â nhw. Pe bai'r Fyddin yn cael ei hatal rhag recriwtio mewn ysgolion, fel y mae'r ddeiseb yn gofyn amdano, mae'n bosibl y byddai rhai pobl ifanc o dan anfantais gan na fyddent yn cael y cyfle i wybod am ystod lawn o yrfaoedd, gan gynnwys rhai gyrfaoedd sy'n cynnig hyfforddiant o ansawdd uchel iawn. Felly roeddwn yn falch pan welais nad oedd casgliadau'r Pwyllgor yn dweud bod unrhyw reswm dros wahardd y lluoedd arfog o ysgolion Cymru yn llwyr ar hyn o bryd.

Dyma fy ymatebion i'r argymhellion:

Argymhellion y Pwyllgor:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen rhagor o ymchwil ar y rhesymau dros y nifer anghymesur i bob golwg o ymweliadau ag ysgolion mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth a oedd yn eu hargyhoeddi bod y lluoedd arfog yn targedu'n fwriadol ysgolion mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig, er gwaethaf y dystiolaeth sy'n codi o hanesion llafar.

Nid wyf yn credu bod y casgliadau'n awgrymu y dylid gwneud ymchwil bellach ar frys. Gellir ystyried bod y cysylltiadau rhwng y lluoedd arfog ac ysgolion, ac ymweliadau'r lluoedd arfog ag ysgolion, yn rhan o weithgarwch y prosiect i wella'r cysylltiad rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Y bwriad yw sicrhau bod ysgolion mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig, gan gynnwys ysgolion sy'n rhan o raglen Her Ysgolion Cymru, yn y grŵp targed ar gyfer ymuno â'r prosiect hwn mor fuan â phosibl. Byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o ymchwil yng ngoleuni profiad y prosiect.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu Fframwaith y Cwricwlwm Gyrfaoedd a Byd Gwaith er mwyn sicrhau bod canllawiau ar wahodd y lluoedd arfog i ysgolion yn cymryd i ystyriaeth eu natur unigryw fel gyrfa a'r angen i hybu trafodaeth agored a gonest gyda'r disgyblion am eu rôl.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Roedd adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn dweud y dylai'r angen i sicrhau bod pobl yn datblygu'n gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, fod yn un o brif ddibenion y cwricwlwm yng Nghymru.

Cafodd argymhellion yr Athro Donaldson eu derbyn yn llawn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a bydd newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r cwricwlwm wrth i *Dyfodol Llwyddiannus* gael ei weithredu. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach i egluro rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid yn y gwaith o weithredu fframwaith y cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith; a'r nod yw darparu pecynnau cymorth ac adnoddau (er enghraifft astudiaethau o'r arferion gorau ar gyfer profiad gwaith) i helpu ysgolion i ddarparu'r elfen hon o'r cwricwlwm.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i'r ffordd orau i helpu ysgolion, busnesau a chyflogwyr i sicrhau bod ystod amrywiol o fusnesau a chyflogwyr yn ymweld ag ysgolion i roi gwybodaeth i'r disgyblion am y cyfleoedd gyrfa y maen nhw'n eu cynnig.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae *Cymwys am Oes*, sef ein cynllun i wella addysg plant a phobl ifanc 3-19 oed yng Nghymru, yn disgrifio sut y byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i Gyrfa Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau cryfach a mwy cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr. Mae'r prosiect i wella'r cysylltiad rhwng cyflogwyr ac ysgolion, a ddarperir gan Busnes yn y Gymuned a Gyrfa Cymru, yn ganolog i gyflawni'r nod hwn. Caiff y prosiect, a fydd yn cael ei weithredu o'r hydref ymlaen, ei ddefnyddio i gyflwyno model newydd ar gyfer creu cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr. Ein gobaith yw y bydd pob ysgol uwchradd wedi creu partneriaethau newydd â chyflogwyr erbyn 2018 o ganlyniad i'r prosiect hwn, ac y bydd y partneriaethau hynny'n cael eu defnyddio i gynnal amrywiaeth o weithgareddau.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru ar geisiadau prosiectau am arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Nod y prosiectau yw lleihau nifer y bobl ifanc 11-16 oed sydd mewn perygl o gefnu ar addysg neu hyfforddiant, drwy ennyn eu diddordeb mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â chyflogwyr. Bydd y prosiectau yn codi ymwybyddiaeth unigolion, drwy roi gwybodaeth iddynt am wahanol sectorau economaidd, a hefyd am ddisgwyliadau cyflogwyr. Bydd y prosiectau hefyd yn darparu gwybodaeth am yrfaoedd posibl o fewn y farchnad lafur leol a rhanbarthol, ac yn sicrhau bod unigolion yn cael dod i gysylltiad â phobl sy'n esiampl dda yn eu maes a'u bod yn cael cymorth mentoriaid.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn credu bod darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd a chytbwys ar gyfer pobl ifanc yn un o elfennau allweddol ei hagenda dysgu gydol oes. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu drwy Gyrfa Cymru. Mae cyfrifoldeb ar ysgolion a chyrff llywodraethu i ymateb i anghenion y disgyblion drwy ddarparu addysg briodol am yrfaoedd, fel y'i nodir yn fframwaith y cwricwlwm Gyrfaoedd a Byd Gwaith. Y nod yw sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r sgiliau y mae eu hangen i wneud penderfyniadau cytbwys a rheoli eu llwybrau gyrfa eu hunain.

Dylai ysgolion gefnogi disgyblion drwy sicrhau bod cyngor ac arweiniad ar gael iddynt o ran gyrfaoedd posibl. Mae hawl gan bob person ifanc mewn addysg uwchradd i ddisgwyl bod yr ysgol yn darparu rhaglen o gymorth ar ei gyfer, a hynny o 11 oed ymlaen, er mwyn ei helpu i symud yn effeithiol i

ddysgu ôl-16 neu i fyd gwaith. Mae'r ymweliadau addysgol a gynhelir gan amrywiaeth enfawr o gyflogwyr posibl yn digwydd yng nghyd-destun y ddarpariaeth hon.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.